Hagia Sophia

Adeiladwyd **Hagia Sophia** (Groeg: Ἁγια Σοφία, Twrceg *Ayasofya*), fel eglwys rhwng 532 a 537 yng Nghaergystennin, yn awr Istanbwl, Twrci. Ystyr yr enw yw "(Eglwys y) Doethineb Sanctaidd".

Fe'i hadeiladwyd yn ystod teyrnasiad Justinian fel ymerawdwr yr Ymerodraeth Fysantaidd, ac ystyrir yr adeilad fel un o gampweithiau pensaernïaeth Fysantaidd. Y penseiri oedd dau Roegwr, Antemios o Tralles ac Isidoros o Miletus. Defnyddiwyd yr adeilad fel eglwys am 916 mlynedd, hyd nes i'r Ymerodraeth Ottomanaidd gipio Caergystennin yn 1453. O hynny hyd 1935 bu'n gweithredu fel mosg, ond yn y flwyddyn honno cafodd yr adeilad ei droi yn amgueddfa.

Hagia Sophia, Istanbwl

Wedi dod o "https://cy.wikipedia.org/w/index.php?title=Hagia_Sophia&oldid=2275309"

Newidiwyd y dudalen hon ddiwethaf ar 13 Mawrth 2017, am 04:50.

Mae testun y dudalen ar gael dan drwydded Creative Commons Attribution-ShareAlike; gall fod telerau ychwanegol perthnasol. Gweler Telerau Defnyddio'r Drwydded am fanylion pellach.